



Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro

Ar y cyd gyda Chyngor Bro Morgannwg

Cylchlythyr

Gair gan y Cadeirydd

Mae'r tywydd ofnadwy wedi fy nfflasu y tymor hwn. O ble y mae'r holl law 'ma'n dod? Mae'r dolydd dŵr ar bob ochr i'r ffordd wrth i mi deithio o Ddinas Powys i Ysgol Uwchradd Gatholig St Richard Gwyn yn Y Barri wedi bod dan ddŵr ers wythnosau. Yn ffodus, mae'r caeau'n gwneud eu gwaith ac yn arafu llif y dŵr fel nad yw'r ysgol, diolch byth, wedi cael llifogydd eto er gwaethaf y dilywod, ac nid ydym wedi gorfod delio eto â chanlyniadau ofnadwy llifogydd.

Yn y cyfamser, ar nodyn arall digalon, bydd bob un ohonoch wedi cael eich cyllidebau ysgol ar gyfer 2024/25 gan Gyngor Bro Morgannwg. Mae'r swm o arian sydd ar gael i Lywodraeth Cymru yn rhy isel i gynnal Gwasanaethau Cyhoeddus ar y lefel yr ydym yn gyfarwydd â hi ac mae hyn yn cael ei adlewyrchu yn y dyraniad i Awdurdodau Lleol. Mae'r Fro wedi gorfod gwneud dewisiadau anodd. Dydw i ddim yn genfigennus o'r cynghorwyr. Mae'n sefyllfa amhosibl.

Y canlyniad yw bod Llywodraethwyr yn cael llai o arian nag sy'n ofynnol i redeg eu hysgol yn unol â'r rheoliadau y mae'n rhaid iddynt eu dilyn. Roedd tua 40% o ysgolion y Fro yn rhagweld diffyg o ran eu cyllidebau ar gyfer 2023/24. Bydd y sefyllfa'n waeth ar gyfer 2024/5.

Mae yna eisoes adroddiadau newyddion am ysgolion mewn awdurdodau eraill yn codi pryderon. Mae penaethiaid Conwy a Sir Ddinbych eisoes wedi ysgrifennu at rieni gyda'u pryderon. Mae ysgolion ledled Cymru yn cael gwared ar staff. Mae'n gyfnod pryderus.

Yn dilyn ein cyfle i siarad ag Aelodau'r Senedd ar gyflwr enbyd cyllid ysgolion cyn y Nadolig, bydd Cymdeithas Llywodraethwyr y Fro yn parhau â'n hymgyrch gyhoeddus i dynnu sylw at sut mae'r cyllid gwael yn effeithio ar y dysgwyr yn ein gofal.

Pasg Hapus! Efallai y bydd hi wedi rhoi'r gorau i fwrw glaw erbyn hynny.

Dr Martin Price

Cadeirydd Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro ac Is-gadeirydd y Llywodraethwyr, Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn

Rhifyn 57

Tymor Gwanwyn 2024

Pwyntiau arbennig o ddi-ddordeb:

- Sefydlwyd AVAGO ym 1996 ac fe'i lanswyd o'r newydd yn 2006 fel Cymdeithas Llywodraethwyr Ysgolion y Fro (VSGA)
- Mae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys 15 o lywodraethwyr etholedig, ynghyd â 2 gynrychiolydd rhieni-lywodraethwyr

Sefydlwyd VSGA I;

- Hyrwyddo arfer gorau ym maes llywodraethu mewn ysgolion yn AALI Bro Morgannwg
- Hyrwyddo gwaith mewn partneriaeth ymhlith ysgolion a rhwng ysgolion a'r AALI
- Gweithio gyda budddeiliaid er mwyn sicrhau adnoddau digonol ar gyfer ysgolion yn yr AALI T
- Cynrychioli safbwyntiau'r Gymdeithas ynghylch materion sy'n ymwneud gyda llywodraethu ysgolion a rheolaeth ac adnoddau ysgolion i awdurdodau a sefydliadau perthnasol



Mae angen mwy o lywodraethwyr sy'n edrych fel fi arnom ni o hyd!

Rwy'n dod o gefndir dosbarth gweithiol, o dde-ddwyrain Llundain ac mewn 23 mlynedd o weithio ym myd addysg, dydw i ddim yn gweld llawer o lywodraethwyr ysgol sy'n edrych fel fi. Roeddwn i eisiau ysgrifennu'r erthygl hon oherwydd fy mod yn credu yng ngrwm cynhwysiant go iawn. Hoffwn weld mwy o wahaniaethau yn ein cyrff llywodraethu ysgolion, o ran oedran, hil, rhyw, rhywioldeb a dosbarth.



Pan o'n i yn yr ysgol yn y saithdegau, o'n i'n teimlo bod y system yn erbyn pobl fel fi. Roeddwn i wedi fy siomi'n fawr rhag breuddwydio'n rhy fawr. Roedd angen i fi fod yn ymwybodol o fy lle a dywedwyd wrthyf dro ar ôl tro na fyddwn yn cyflawni llawer oherwydd fy nghefndir. Doeddwn i ddim yn mwynhau'r ysgol o l l oed ymlaen. Roeddwn i'n ddiethryn a ddywedwyd wrthyf y gallwn i berthyn pe bawn i'n dda mewn chwaraeon ac yn gwybod fy lle.

Ym mis Medi 2022, pan gyflwynwyd y cysyniad o fod yn llywodraethwr cymunedol i fi, penderfynais i nad oedd y rôl i fi. Dychwelais i'r fersiwn l l oed ohonof i, gyda fy mreichiau wedi'u plygu ac wedi fy ymddieithrio'n ormodol. Penderfynais na allwn fod yn aelod o unrhyw gorff llywodraethu oherwydd nad oeddwn yn ddigon 'posh', ddim yn ddigon hen ac roeddwn i â'r arlliw croen anghywir.

Fodd bynnag, dywedwyd wrthyf yn gadarn gan gydweithwyr dibynadwy; Elli di ddim eirioli dros gynhwysiant os byddi di'n gwrthod cyfranogi. Darllenais i [erthygl](#) flwyddyn yn ôl a gwnaeth atseinio gyda fi, felly penderfynais ymrwymo i fod yn Llywodraethwr Cymunedol mewn ysgol gynradd leol. Roedd yn nodi:

"Dylai cyrff llywodraethu gynrychioli'r gymuned maen nhw'n ei gwasanaethu. Os na allwch deimlo cysylltiad â'r gymuned, sut gallwch chi ddeall ac yna gwneud pethau er budd gorau'r myfyrwyr?"

Mae llywodraethwyr yn gyfrifol am benodi uwch staff, gan sicrhau bod arian yn cael ei wario'n dda, yn rhan o wahanol baneli, gan gynnwys gwaharddiadau a chwynion. Mae ganddyn nhw lawer iawn o rym a chyfrifoldeb oherwydd bod angen iddyn nhw weithredu fel ffrind beirniadol i'r pennaeth. Pan fydd gan aelodau cyrff llywodraethu farn wahanol, o wahanol gefndiroedd, bydd safbwyntiau gwahanol. Mae'r ystod hon o safbwyntiau yn trosi mewn penderfyniadau mwy gwybodus.

Does dim rhaid i chi fod o'r mwyafrif byd-eang i fod yn llywodraethwr da ond gall bod yn gynhwysol eich gwneud yn llywodraethwr anhygoel. Mae bod yn gynhwysol yn cymryd ymdrech ac nid yw'n weithgaredd goddefol. Mae hyfforddiant hygyrch ar gael ac mae'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu yn haeddu cyrff llywodraethu sy'n gynhwysol yn weithredol.

Beth byddwn i'n ei ddweud wrth fy hun ychydig yn iau pan eisteddais yn fy nghyfarfod llywodraethwyr cyntaf? Rwy'ti'n perthyn yma ac mae dy lais mor ddilys ag eraill o amgylch y bwrdd. - **Martine Booker-Southard; Community Governor, Holton Primary.**



Hyrwyddwr tegwch ac amrywiaeth ar gyrff llywodraethu ysgolion – disgrifiad o'r rôl



Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Darperir y ddogfen hon i roi dealltwriaeth i gyrff llywodraethu ysgolion yng Nghymru o fanteision penodi hyrwyddwr tegwch ac amrywiaeth ar gyfer eu hysgol a'r dyletswyddau y gallant eu cyflawni. Nid yw penodi hyrwyddwr tegwch ac amrywiaeth yn newid y gofynion ar gyrff llywodraethu i gyflawni ei swyddogaethau cydraddoldeb statudol fel y'u rhestrir.

Pam mae angen hyrwyddwr tegwch ac amrywiaeth ar fy nghorff llywodraethu?

Dylai pob ysgol yng Nghymru ymroi i fod mor gynhwysol a chroesawgar â phosibl. Dylid dathlu gwahaniaethau, nid gwneud hwyl am eu pen a'u cwestiynu. Dylai fod gan ysgolion bolisi dim goddefgarwch tuag at fwlio, aflonyddu a gwahaniaethu o bob math. Mae penodi hyrwyddwr tegwch ac amrywiaeth yn un ffordd o ddangos i gymuned yrysgol bod eich corff llywodraethu yn cymryd y mater hwn o ddifrif a'i fod am arwain drwy esiampl.

Beth mae'n ei olygu?

Dylai hyrwyddwr tegwch ac amrywiaeth fod yn barod i godi llais dros gydraddoldeb ac amrywiaeth bob amser ac ym mhob penderfyniad polisi. Dylai deimlo'n gyffyrddus i herio arweinwyr yr ysgol a'r llywodraethwyr os yw'n teimlo bod yr ysgol yn syrthio'n brin o'r safon neu'n gweithredu mewn ffordd sy'n gwahaniaethu.

Dylai hefyd godi ymwybyddiaeth am faterion yn ymwneud ag amrywiaeth a chynhwysiant er mwyn hyrwyddo tegwch. Dylai hyrwyddwyr hefyd weithio gyda'r pennaeth a'r awdurdod lleol i fonitro a diweddarau cynlluniau cydraddoldeb strategol ac amcanion cydraddoldeb yr ysgol. Bydd hyn yn rhoi atebolrwydd i'r ysgol ar effeithiolrwydd ei pholisïau.

Pa gymwysterau, hyfforddiant neu brofiad arbennig sydd eu hangen arnaf i ysgwyddo'r rôl hon?

Dim. Y cyfan sydd ei angen i fod yn hyrwyddwr tegwch ac amrywiaeth yw brwdfrydedd dros sicrhau tegwch i bawb. Byddai hyrwyddwr o'r fath am wneud y mwyaf o bob cyfle hyfforddi a dysgu proffesiynol ychwanegol perthnasol a gynigir gan eu hawdurdod lleol neu gonsortiwym sy'n ymwneud â thegwch ac amrywiaeth. Bydd hyn yn helpu i sicrhau eu bod yn meddu ar yr wybodaeth a'r adnoddau angenrheidiol i helpu i ddwyn eu tîm arweinyddiaeth ysgolion i gyfrif mewn ffordd ystyrlon, gefnogol a heriol.

Ble gallaf ddod o hyd i help a chefnogaeth ar faterion amrywiaeth?

Mae yna lawer o adnoddau ar-lein i'ch helpu i adnabod achos o wahaniaethu. Mae sefydliadau arweiniol fel DARPL (Dysgu Proffesiynol ar Wrth-hiliaeth ac Amrywiaeth – y cynnig dysgu proffesiynol cenedlaethol a gefnogir gan Lywodraeth Cymru), a chyrrff trydydd sector fel [Dangos y Cerdyn Coch i Hiliaeth](#), [Stonewall Cymru](#) a [SNAP Cymru](#) yn cynnig ystod o adnoddau a hyfforddiant defnyddiol. Efallai y bydd eich awdurdod lleol hefyd yn cynnig hyfforddiant ar gydraddoldeb ac amrywiaeth, yn ogystal â'r hyn a gynigir yn y pecyn hyfforddiant cynefino gorfodol i lywodraethwyr. Ar gyfer staff a llywodraethwyr o gefndir Du, Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol, gallai hefyd fod yn ddefnyddiol eu cyfeirio at rwydwaith [BAMEed Cymru](#) sy'n cynnig gofod cefnogol, a gaiff ei redeg gan wirfoddolwyr.



Hyrwyddwr tegwch ac amrywiaeth ar gyrff llywodraethu ysgolion – disgrifiad o'r rôl

Pa gwestiynau ddylai'r hyrwyddwr tegwch ac amrywiaeth fod yn eu gofyn i'r pennaeth a'r corff llywodraethu?

Dylai'r hyrwyddwr tegwch ac amrywiaeth fod yn barod i ofyn beth mae'r pennaeth a'r corff llywodraethu yn ei wneud i sicrhau bod yr ysgol yn esiampl o ran amrywiaeth a hyrwyddo tegwch. Dyma rai enghreifftiau:

- Sut mae ethos yr ysgol yn dathlu gwahaniaethau?
- Sut ydym yn datblygu dealltwriaeth cymuned yr ysgol gyfan am wahanol ddiwylliannau a chefnidiroedd?
- Esboniwch sut mae'r ysgol yn ymdrin â honiadau o hiliaeth / homoffobia / trawsffobia / bwlio ar sail anabledau ac anghenion dysgu ychwanegol (gan gynnwys staff a dysgwyr)². Ydy'r dull gweithredu hwn yn ddigon da?
- Ble a sut mae hiliaeth yn cael sylw yn eich polisiau a'ch gweithdrefnau diogelu?
- Pwy yw'r unigolyn / unigolion neu'r aelod(au) staff dynodedig sydd wedi'i bennu / wedi'u pennu i staff a dysgwyr droi ato / atynt os oes ganddynt bryderon? Pa brosesau sydd ar waith i helpu staff a dysgwyr godi eu llais heb ofni cael eu cywilyddio ac yn y sicrwydd yr ymdrinnir â'r mater yn briodol?
- Yn eich barn chi, ym mha ffyrdd mae'r addysgu a'r dysgu yn yr ysgol yn adlewyrchu amrywiaeth, gwrth-wahaniaethu a gwrth-hiliaeth fel thema drawsbynciol yn y cwricwlwm?
- Pa fath o ddyfeisgarwch, mentrau a dulliau cyfathrebu sy'n cael eu rhoi yn eu lle i wella tegwch ac amrywiaeth yn niwylliant, cwricwlwm a chymuned yr Ysgol?
- Pa mor gynhwysol yw'r polisi o ran gwisg ysgol a gwallt?
- Sut eir ati i ymchwilio i safbwyntiau, barn a phrofiadau dysgwyr o ran tegwch, amrywiaeth a chynhwysiant yn yr ysgol, ac i weithredu arnynt?
- Pa gamau sy'n cael eu cymryd i sicrhau bod staff yr ysgol a'r corff llywodraethu yn cynrychioli ein cymuned a'r amrywiaeth yng Nghymru gymaint ag y bo modd?
- Pa gamau gwirio a ddilynir i sicrhau bod yr ysgol yn cydymffurfio â Deddf Cydraddoldeb 2010 a Rheoliadau Deddf Cydraddoldeb 2010 (Dyletswyddau Statudol) (Cymru) 2011?
- Beth ydym ni'n ei wneud i weithredu argymhellion [Gweithgor Cymunedau](#), [Cyfraniadau a Chynefin Pobl Ddu](#), [Asiaidd ac Ethnig Leiafrifol yn y Cwricwlwm Newydd: adroddiad terfynol](#)?
- Beth ydym ni'n ei wneud i weithredu argymhellion Cynllun Gweithredu Cymru Wrth-hiliol?
- Sut y gallwn sicrhau nad yw unrhyw newidiadau i bolisiau ysgolion neu bolisiau ysgol newydd yn cael effaith andwyol ar unrhyw grwpiau penodol?
- Beth yn rhagor allwn ni ei wneud fel cymuned ysgol i hyrwyddo tegwch ac amrywiaeth?



Hyfforddiant diogelu a llywodraethwyr y Fro - Tymor y Gwanwyn 2024

Pa lywodraethwyr sydd i fod i wneud pa hyfforddiant Diogelu?

Safbwynt yr ALL yw y dylai pob llywodraethwr ymgymryd â modiwlau e-ddysgu Diogelu Llywodraeth Cymru sydd ar gael trwy'r dolenni isod ac y dylai pob llywodraethwr Diogelu Dynodedig (LIDDau) fynychu'r hyfforddiant penodol i LIDDau ar gyfer y rôl honno pan gaiff ei gynnwys yn y rhaglen hyfforddi llywodraethwyr tymhorol sy'n cael ei e-bostio'n rheolaidd yn uniongyrchol i'r holl lywodraethwyr.

<https://hwb.gov.wales/repository/resource/65cf3917-fe44-4f34-9dfd-ff7eba11e6f6/en> (Cyflwyniad - Modiwl 1)

<https://hwb.gov.wales/repository/resource/0b7409c9-3dce-4d43-80ea-36ee57c28535/en> (Rolau a Chyfrifoldebau - Modiwl 2)

Beth am y modiwl hyfforddiant Diogelu arall sydd wedi ymddangos yn ddiweddar ar y rhaglen hyfforddi tymhorol?

Datblygwyd yr hyfforddiant hwn gan Gonsortium Canolbarth y De (CCD) fel un o bedwar modiwl ar gyfer pob llywodraethwr newydd eu penodi fel rhan o'u Rhaglen Grymuso Llywodraethwyr. Y pedwar modiwl yw Sefydlu, Data, Diogelu a Galluogi Tegwch a Rhagoriaeth. Mae sefydlu a data yn orfodol ond nid yw'r 2 arall. Y syniad yw bod y pedwar modiwl yma yn galluogi llywodraethwyr newydd i ddatblygu eu gwybodaeth, eu dealltwriaeth, eu sgiliau a'u hyder i ymgymryd yn llwyddiannus â'u rôl o ran cefnogi gwella ysgolion a hyrwyddo'r safonau a'r dyheadau uchaf i bob dysgwr. Gall llywodraethwyr profiadol hefyd fynychu un neu fwy o'r sesiynau hyn i barhau i gael y wybodaeth ddiweddaraf am eu rôl. Mae'r elfen Ddiogelu yn canolbwyntio ar ddeall a hyrwyddo diwylliant o wylidwriaeth ac mae'r sesiynau hyn yn cynnig cyfle i lywodraethwyr fynychu sesiwn rithwir os mai dyna yw eu dewis dros e-ddysgu. Y ffactor allweddol yw y dylai pob llywodraethwr fynychu rhyw fath o Ddiogelu gan ei fod yn faes mor bwysig.

A yw hyfforddiant Diogelu yn orfodol i lywodraethwyr?

Na, nid yw'n un o fodiwlau hyfforddi gorfodol Llywodraeth Cymru ar gyfer llywodraethwyr ond mae Diogelu yn faes pwysig iawn y dylai pob llywodraethwr fod yn ymwybodol ohono.

A oes angen i Lywodraethwyr Diogelu Dynodedig fynychu hyfforddiant LIDD?

Oes, mae'n ddisgwyliad rhesymol y dylai llywodraethwyr sy'n ymgymryd â'r rôl bwysig hon barhau i gael eu diweddarau ar ei chyfer. Mae hefyd yn bolisi'r Cyngor y dylai pob LIDD fynychu hyfforddiant ar gyfer y rôl. Os nad ydynt yn barod i fynychu hyfforddiant, yna mae'n rhesymol i'r corff llywodraethu benodi rhywun arall i'r rôl.

Pa mor aml y dylai LIDDau fynychu hyfforddiant ar gyfer y rôl?

O leiaf bob dwy flynedd i gael y wybodaeth ddiweddaraf am y rôl. Bydd dyddiad terfyn cymhwyso ar ail ben-blwydd y sesiwn hyfforddi LIDD a fynychwyd yn flaenorol.



Hyfforddiant diogelu a llywodraethwyr y Fro - Tymor y Gwanwyn 2024

A all Cadeiryddion llywodraethwyr hefyd fod y LIDD?

Nid oes unrhyw beth i atal Cadeiryddion hefyd fod yn LIDD ond rydym yn cynghori'n gryf ei fod yn llywodraethwr arall oherwydd ei fod yn sicrhau y gellir clywed llais gwahanol. Mae hefyd yn atal Cadeiryddion rhag cael eu llethu gan rolau gan fod bod yn Gadeirydd eisoes yn golygu cryn dipyn o amser a gwaith i wirfoddolwr.

A all llywodraethwyr staff hefyd fod yn LIDD?

Nid oes unrhyw beth i atal llywodraethwyr staff rhag bod yn LIDD hefyd ond rydym yn cynghori'n gryf mai llywodraethwr arall ydyw am yr un rhesymau ag uchod, ac mae'n dod â niwtraliaeth i'r rôl os yw'n cael ei chyflawni gan rywun nad yw'n cael ei gyflogi gan yr ysgol.

A oes angen i lywodraethwyr gael gwiriad GDG?

Ar hyn o bryd nid oes gofyniad cyfreithiol i lywodraethwyr gael gwiriad GDG oherwydd na ddylent gael mynediad heb oruchwyliaeth i ddisgyblion yn eu rôl fel llywodraethwr. Fodd bynnag, polisi'r Cyngor yw bod pob LIDD yn cynnal gwiriad GDG ar gyfer y rôl honno.

A oes angen o hyd i lywodraethwyr staff ymgymryd â'r hyfforddiant Diogelu y cyfeirir ato yma er y byddant wedi ymgymryd â hyfforddiant Diogelu ar gyfer eu swydd bob dydd?

Oes, dyna ein hargymhelliad oherwydd mae rôl llywodraethwr yn amlwg yn wahanol i rôl gweithiwr. Mae hyn hefyd yn berthnasol i unrhyw lywodraethwr sydd â swydd ddydd sy'n ei gwneud yn ofynnol iddynt ymgymryd â hyfforddiant diogelu. Unwaith eto, byddem yn dal i argymhell eu bod yn cwblhau'r hyfforddiant diogelu penodol i lywodraethwyr ochr yn ochr â hynny.

Pwy sy'n monitro pa lywodraethwyr sy'n gwneud pa hyfforddiant Diogelu?

Dylai clercod fonitro'r hyfforddiant Diogelu y mae eu llywodraethwyr wedi'i wneud ac i gynorthwyo gyda hyn, bydd pob Cadeirydd, Pennaeth a Chlerc yn cael presenoldeb hyfforddiant gwirioneddol eu llywodraethwyr bob tymor am y tymor blaenorol. Mae'n arfer da i Glercod wirio'n rheolaidd ac atgoffa eu llywodraethwyr am gyfleoedd hyfforddiant Diogelu a chynnal eu cofnodion yn unol â hynny. Bydd y wybodaeth hon yn ddefnyddiol pan fydd ysgolion yn cael eu harolygu gan Estyn

Beth os oes gennyf unrhyw ymholiadau neu gwestiynau o hyd ynglŷn â pha hyfforddiant Diogelu y dylwn ei wneud?

Cysylltwch â'r Uned Cefnogi Llywodraethwyr drwy e-bost yn governors@valeofglamorgan.gov.uk neu drwy ffonio 01446 709107/125 neu'r Tîm Diogelu yn SafeguardingEducation@valeofglamorgan.gov.uk neu drwy ffonio 01446 704828.





Pecyn Cymorth ac Arweiniad Cynhwysiant Trawsryweddol

Mae dogfen Pecyn Cymorth a Chanllawiau Cynhwysiant Trawsryweddol ddiwygiedig ar gyfer ysgolion wedi cael ei chymeradwyo'n ddiweddar gan Gabinet y Cyngor. Mae'r ddogfen hon wedi cael ei rhannu gydag ysgolion yn uniongyrchol a bydd ar gael ar fewnwyd y Cyngor er sylw pobl eraill.

Fel efallai y byddwch chi eisoes yn gwybod, cynhaliwyd ymgynghoriad ar y ddogfen ddiwygiedig yn 2023 ac mae canlyniadau'r ymgynghoriad a'r pecyn cymorth diwygiedig wedi cael eu hystyried yn ddiweddar gan bwyllgor craffu Dysgu a Diwylliant y Cyngor cyn cael eu cyfeirio at y Cabinet i'w penderfynu'n derfynol.

Mae'r canllawiau hyn yn rhan o gyfres ehangach o ddogfennau gan ein hadran addysg ar gyfer ysgolion gyda materion fel bwlio a chynhwysiant. Cliciwch ar y ffeil isod i weld y ddogfen.

VoGC Trans Inclusion
Toolkit Cymraeg.pdf

Aelodaeth y Pwyllgor Rheoli 2022-24

ae'r Pwyllgor Rheoli yn cynnwys llywodraethwr etholedig ynghyd â'r ddau Gynrychiolydd Rhiant-Llywodraethwr (un yr un o'r sectorau cynradd ac uwchradd).

No	Name	School
1	Mr P Cate	Ysgol Gynradd Jenner Park
2	Swydd wag	Swydd wag
3	Ms J Evans	Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Gladstone
4	Mrs M Gibbs	Ysgol Gynradd Romilly
5	Mr G Griffiths	Ysgol Gwaun y Nant & Ysgol Sant Curig
6	Cllr W Hennessey	Ysgol Gynradd y Rhws
7	Mrs C Hunt	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Nicholas
8	Mrs S Jenkins	Ysgol Gynradd yr Eglwys yng Nghymru St Andrews ac Ysgol Gyfun St Cyres
9	Dr C Lee	Ysgol Gyfun St Cyres
10	Cllr J Lynch-Wilson	Ysgol Gyfun Llanilltud Fawr
11	Dr M Price (Chair)	Ysgol Uwchradd Gatholig Sant Richard Gwyn
12	Mr D Treharne	Ysgol Gynradd Llansanwyr C/W
13	Mrs T Vaughan-Taylor	Ysgol Gyfun y Bont-faen
14	Mr O Williams	Ysgol Sant Baruc
15	Cllr M Wilson	Ysgol Gynradd Fairfield ac Ysgol Gynradd Victoria

ymhorau swydd Cynrychiolwyr Rhiant Lywodraethwyr (PGRs)

Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Cynradd– L Barrowclough- Ysgol Gynradd Llandochoaul
Cynrychiolydd Rhiant Lywodraethwyr Uwchradd– G van de Burgt – Whitmore High School



Uned Cefnogi Llywodraethwyr

Manylion cyswllt:

John Sparks
Pennaeth Cefnogi Llywodraethwyr/Prif Swyddog
Ffôn 01446 709106
E-bost: JSparks@valeofglamorgan.gov.uk

Francesca Wright
Uwch Swyddog Cefnogi Llywodraethwyr
Ffôn 01446 709125
E-bost: fwright@valeofglamorgan.gov.uk

Janine Hoare
Cynorthwydd Clerigol
Ffôn: 01446 709107
E-bost: JHoare@valeofglamorgan.gov.uk

Mae gan VSGA gyfeiriad e-bost y gallwch ei ddefnyddio er mwyn cysylltu â ni, sef VSGA@valeofglamorgan.gov.uk
Neu, gallwch gysylltu â VSGA trwy'r post: VSGA a'r Uned Cymorth i Lywodraethwyr Dysgu a Sgiliau Swyddfeydd
Dinesig, Heol Holton, Y Barri CF63 4RU



Pasg Hapus